



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 842 (Cy.74)

2007 No. 842 (W.74)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Adnabod Gwartheg
(Cymru) 2007**

**The Cattle Identification (Wales)
Regulations 2007**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Deddfwriaeth flaenorol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-lunio i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru ddarpariaethau -

- (a) Gorchymyn Anifeiliaid Buchol (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995(1);
- (b) Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998(2);
- (c) Rheoliadau Cronfa Ddata Gwartheg 1998(3);
- (ch) Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hyn) (Cymru) 2000(4).

ynghyd â'r diwygiadau i'r offerynnau hynny.

Y prif newidiadau

Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:

Mae'r Rheoliadau yn awr yn caniatáu bod bison yn cael ei dagio hyd at 9 mis ar ôl ei eni (paragraff 1(3) o Atodlen 1).

Maent yn creu tramgwydd o drosglwyddo tagiau clust rhwng anifeiliaid (paragraff 4(5) o Atodlen 1).

Earlier legislation

These Regulations revoke and remake insofar as they apply in relation to Wales the provisions of-

- (a) the Bovine Animals (Records, Identification and Movement) Order 1995(1);
- (b) the Cattle Identification Regulations 1998(2);
- (c) the Cattle Database Regulations 1998(3);
- (d) the Cattle (Identification of Older Animals) (Wales) Regulations 2000(4).

together with the amendments to those instruments.

Principal changes

The principal changes are as follows.

The Regulations now allow bison to be tagged up to 9 months after birth (paragraph 1(3) of Schedule 1).

They create an offence of transferring eartags between animals (paragraph 4(5) of Schedule 1).

(1) O.S. 1995/12.
(2) O.S. 1998/871.
(3) O.S. 1998/1796.
(4) O. S. 2000/3339 (Cy.217).

(1) S. I. 1995/12.
(2) S. I. 1998/871.
(3) S. I. 1998/1796.
(4) S. I. 2000/3339 (W.217).

Nid ydynt mwyach yn caniatáu'r defnydd o basbortau lloi dros dro.

Maent yn caniatáu cofrestru gwartheg yn electronig (paragraff 2(3) o Atodlen 2).

Maent yn newid y ffi o £50 am basbort o'r newydd yn lle hen un i ffi sy'n adlewyrchu gwir gost dyroddi (paragraff 4 o Atodlen 3).

Maent yn symleiddio'r darpariaethau ar gofnodion (Atodlen 5).

Y Rheoliadau

Mae'r Rheoliadau gorfodi-

Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor (sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac ynghylch labelu cynhyrchion cig eidion a diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97(1));

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 494/98 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu cynllun Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97 o ran cymhwyso nifer lleiaf posibl o sancsiynau yn fframwaith y system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol(2);

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 911/2004 (sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran tagiau clust, pasbortau a chofrestrau daliadau(3));a

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 644/2005 (sy'n awdurdodi system adnabod arbennig ar gyfer anifeiliaid buchol a gedwir at ddibenion diwylliannol a hanesyddol mewn mangreoedd a gymeradwywyd fel a ddarperir yn Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor(4)).

Maent yn darparu ar gyfer hysbysiad o ddaliad i'r Cynulliad Cenedlaethol os cedwir gwartheg yno (rheoliad 3).

Maent yn darparu ar gyfer tagiau clust (rheoliad 4 ac Atodlen 1), cofrestru gwartheg (rheoliad 5 ac Atodlen 2), pasbortau (rheoliad 6 ac Atodlen 3) a hysbysiad o symud a marwolaeth (rheoliad 7 ac Atodlen 4).

They no longer permit the use of temporary calf passports.

They permit electronic registration of cattle (paragraph 2(3) of Schedule 2).

They change the £50 fee for replacement passports to a fee reflecting the cost of issue (paragraph 4 of Schedule 3).

They simplify the provisions on records (Schedule 5).

The Regulations

The Regulations enforce-

Regulation (EC) No. 1760/2000 of the European Parliament and of the Council (establishing a system for the identification and registration of bovine animals and regarding the labelling of beef products and repealing Council Regulation (EC) No. 820/97(1));

Commission Regulation (EC) No. 494/98 laying down detailed rules for the implementation of Council Regulation (EC) No. 820/97 as regards the application of minimum administrative sanctions in the framework of the system for the identification and registration of bovine animals(2);

Commission Regulation (EC) No. 911/2004 (implementing Regulation (EC) No. 1760/2000 of the European Parliament and of the Council as regards ear tags, passports and holding registers(3));and

Commission Regulation (EC) No. 644/2005 (authorising a special identification system for bovine animals kept for cultural and historical purposes on approved premises as provided for in Regulation (EC) No. 1760/2000 of the European Parliament and of the Council(4)).

They provide for notification of a holding to the National Assembly if cattle are kept there (regulation 3).

They make provision for eartags (regulation 4 and Schedule 1), registration of cattle (regulation 5 and Schedule 2), passports (regulation 6 and Schedule 3) and notification of movement and death (regulation 7 and Schedule 4).

(1) OJ Rhif L204, 11.8.2000, t. 1.

(2) OJ Rhif L60, 28.2.1998, t. 78.

(3) OJ Rhif L 163, 30.4.2004, t. 63.

(4) OJ Rhif L 107, 28.4.2005, t. 18.

(1) OJ No. L204, 11.8.2000, p. 1.

(2) OJ No. L60, 28.2.1998, p. 78.

(3) OJ No. L 163, 30.4.2004, p. 63.

(4) OJ No. L 107, 28.4.2005, p. 18.

Maent yn darparu i gofnodion gael eu cadw yn y ffurf a bennir yn Atodlen 5.

Maent yn darparu ar gyfer gorfodi'r Rheoliadau (Rhan 4). Gorfodir hwy gan yr awdurdod lleol (rheoliad 16).

Mae torri'r Rheoliadau'n dramgwydd, drwy gosb-

- (a) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis, neu'r ddau;
- (b) ar gollfarn ar dditiad, i ddirwy neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

Mae Arfarniad Rheoliadol o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael ar gostau busnes ac ar y sector gwirfoddol ar gael o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

They provide for records to be kept in the form specified in Schedule 5.

They provide for the enforcement of the Regulations (Part 4). They are enforced by the local authority (regulation 16).

Breach of the Regulations is an offence, punishable-

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding the statutory maximum or to imprisonment not exceeding three months or to both;
- (b) on conviction on indictment, to a fine or to imprisonment for a term not exceeding two years or to both.

A full regulatory appraisal of the effect that this instrument will have on the costs of business and the voluntary sector is available from the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2007 Rhif 842 (Cy.74)

2007 No. 842 (W.74)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Adnabod Gwartheg
(Cymru) 2007**

**The Cattle Identification (Wales)
Regulations 2007**

Wedi'u gwneud *13 Mawrth 2007*
Yn dod i rym *6 Ebrill 2007*

Made *13 March 2007*
Coming into force *6 April 2007*

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

CYFLWYNIAD

INTRODUCTION

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli

1. Title, application and commencement
2. Interpretation

RHAN 2

PART 2

3. Hysbysiad o ddaliadau

3. Notification of holdings

RHAN 3

PART 3

Adnabod a chofrestru gwartheg

Identification and registration of cattle

4. Tagiau clust
5. Cofrestru gwartheg
6. Pasbortau gwartheg
7. Hysbysiad o symud neu farwolaeth
8. Cofnodion

4. Ear tags
5. Registration of cattle
6. Cattle passports
7. Notification of movement or death
8. Records

RHAN 4
CYFFREDINOL

PART 4
GENERAL

9. Codi tâl am wybodaeth
10. Pwerau arolygwyr
11. Pwerau i gyfyngu ar symudiadau
12. Cigydda anifeiliaid heb eu marcio
13. Rhwystro
14. Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol
15. Cosbau
16. Gorfodi
17. Dirymiadau

9. Charging for information
10. Powers of inspectors
11. Powers to restrict movements
12. Slaughter of unmarked animals
13. Obstruction
14. Offences by bodies corporate
15. Penalties
16. Enforcement
17. Revocations

- ATODLEN 1 - Tagiau clust
- ATODLEN 2 - Cofrestru gwartheg
- ATODLEN 3 - Pasbortau gwartheg
- RHAN 1 - Pasbortau
- RHAN 2 - Symud gan ddefnyddio pasbortau
- ATODLEN 4 - Hysbysiad o symud neu farwolaeth
- ATODLEN 5 - Cofnodion

- SCHEDULE 1 - Ear tags
- SCHEDULE 2 - Registration of cattle
- SCHEDULE 3 - Cattle passports
- PART 1 - Passports
- PART 2 - Movement using passports
- SCHEDULE 4 - Notification of movement or death
- SCHEDULE 5 - Records

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(2) ac o ran mesurau yn y maes milfeddygol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(3).

The National Assembly for Wales is designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(1) in relation to the common agricultural policy of the European Community(2) and in relation to measures in the veterinary field for the protection of public health(3).

Mae'r Trysorlys yn cydsynio i'r Rheoliadau hyn yn unol ag adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973(4).

The Treasury consent to these Regulations in accordance with section 56(1) of the Finance Act 1973(4).

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973.

The National Assembly for Wales makes these Regulations under section 2(2) European Communities Act 1972 and section 56(1) of the Finance Act 1973.

(1) 1972 p. 68.

(2) O. S. 2005/2766.

(3) O. S. 2003/1246.

(4) 1973 p. 51.

(1) 1972 c. 68.

(2) S. I. 2005/2766.

(3) S. I. 2003/1246.

(4) 1973 c. 51.

RHAN 1

RHAGYMDRODD

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 6 Ebrill 2007.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodwyd yn arolygydd at ddibenion y Rheoliadau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan awdurdod lleol;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") o ran ardal yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid, boed hynny'n barhaol neu dros dro, gan gynnwys pan gludir hwy neu pan fyddant mewn marchnad;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw sefydliad, adeiladwaith neu, yn achos fferm awyr agored, unrhyw le y mae gwartheg yn cael eu dal, eu cadw neu eu trafod;

"deddfwriaeth tagio gwartheg flaenorol" ("*previous cattle tagging legislation*") yw-

- (a) Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998(1);
- (b) Gorchymyn Anifeiliaid Buchol (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995(2);
- (c) Gorchymyn Anifeiliaid Buchol (Cofnodion Adnabod, Marcio a Bridio) 1990(3);
- (ch) Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru a Lloegr) 1984(4); a
- (d) Gorchymyn Twbercwlosis (yr Alban) 1984(5);

ystyr "dilys" ("*valid*"), o ran pasbort gwartheg, yw pasbort gwartheg a gafodd ei gwblhau'n gywir a'i lofnodi yn y lle priodol yn gywir gan bob ceidwad i'r anifail a bod rhif adnabod a disgrifiad o'r anifail yn y pasbort yn cyfateb i dagiau clust yr anifail;

(1) O. S. 1998/871.
(2) O. S. 1995/12.
(3) O. S. 1990/1867.
(4) O. S. 1984/1943.
(5) O. S. 1984/2036.

PART 1

INTRODUCTION

Title, application and commencement

1. The title of these Regulations is The Cattle Identification (Wales) Regulations 2007. They apply in relation to Wales and come into force on 6 April 2007.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"cattle" means bovine animals, including bison and buffalo;

"cattle passport" means-

- (a) a cattle passport issued in England, Wales or Scotland under Article 6(1) of Regulation (EC) No. 1760/2000;
- (b) a cattle passport issued under the Cattle Passports Order 1996(1); and
- (c) a movement document issued under the Cattle (Identification of Older Animals) (Wales) Regulations 2000(2) or the equivalent measure in Scotland, England or Northern Ireland;

"holding" means any establishment, construction or, in the case of an open-air farm, any place in which cattle are held, kept or handled;

"inspector" means a person appointed to be an inspector for the purposes of these Regulations by the National Assembly or a local authority;

"keeper" means any person responsible for animals, whether on a permanent or temporary basis, including during transportation or at a market;

"local authority" means in relation to an area the county council or county borough council for that area;

"National Assembly" means the National Assembly for Wales of Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ;

"previous cattle tagging legislation" means-

- (a) the Cattle Identification Regulations 1998(3);
- (b) the Bovine Animals (Records, Identification and Movement) Order 1995(4);

(1) S. I. 1996/1686.
(2) S. I. 2000/3339 (W.217) as amended by S.I. 2002/273 (W.29).
(3) S. I. 1998/871.
(4) S. I. 1995/12.

ystyr "gwartheg" ("*cattle*") yw anifeiliaid buchol, gan gynnwys bison a byfflo;

ystyr "pasbort gwartheg" ("*cattle passport*") yw-

- (a) pasbort gwartheg a ddyroddwyd yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban o dan Erthygl 6(1) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000;
- (b) pasbort gwartheg a ddyroddwyd o dan Orchymyn Pasbortau Gwartheg 1996(1); ac
- (c) dogfen symud a ddyroddwyd o dan Reoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hyn) (Cymru) 2000(2) neu'r mesur cyfatebol yn yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000" ("Regulation (EC) No. 1760/2000") yw Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor (sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac sy'n ymwneud â labelu cynhyrchion cig eidion ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97(3));

(2) Rhaid i unrhyw gymeradwyaeth, awdurdodiad, trwydded, hysbysiad neu gofrestrriad a ddyroddir o dan-

- (a) y Rheoliadau hyn,
- (b) Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000;
- (c) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 911/2004 (sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran tagiau clust, pasbortau a chofrestrau daliadau(4)); neu
- (ch) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 644/2005 (sy'n awdurdodi system adnabod arbennig ar gyfer anifeiliaid buchol a gedwir at ddibenion diwylliannol a hanesyddol mewn mangreoedd a gymeradwywyd fel a ddarperir yn Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor(5)),

fod yn ysgrifenedig, caniateir i unrhyw un ohonynt gael ei wneud yn ddarostyngedig i amodau, cael ei ddiwygio, cael ei atal neu ei ddirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig ar unrhyw bryd.

- (c) the Bovine Animals (Identification, Marking and Breeding Records) Order 1990(1);
- (d) the Tuberculosis (England and Wales) Order 1984(2); and
- (e) the Tuberculosis (Scotland) Order 1984(3);

"Regulation (EC) No. 1760/2000" means Regulation (EC) No. 1760/2000 of the European Parliament and of the Council (establishing a system for the identification and registration of bovine animals and regarding the labelling of beef products and repealing Council Regulation (EC) No. 820/97(4));

"valid", in relation to a cattle passport, means a cattle passport that has been correctly completed and signed in the appropriate place by each keeper of the animal and the identification number and description of the animal in the passport correlate to the ear tags and the animal.

(2) Any approval, authorisation, licence, notice or registration issued under-

- (a) these Regulations,
- (b) Regulation (EC) No. 1760/2000;
- (c) Commission Regulation (EC) No. 911/2004 (implementing Regulation (EC) No 1760/2000 of the European Parliament and of the Council as regards ear tags, passports and holding registers(5)); or
- (d) Commission Regulation (EC) No. 644/2005 (authorising a special identification system for bovine animals kept for cultural and historical purposes on approved premises as provided for in Regulation (EC) No. 1760/2000 of the European Parliament and of the Council(6)),

must be in writing, may be made subject to conditions and may be amended or revoked by notice in writing at any time.

(1) O. S. 1996/1686.

(2) O. S. 2000/3339 (Cy.217), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2002/273 (Cy.29).

(3) OJ Rhif L204, 11.8.2000, t. 1.

(4) OJ Rhif L 163, 30.4.2004, t. 65.

(5) OJ Rhif L 107, 28.4.2005, t. 18.

(1) S. I. 1990/1867.

(2) S. I. 1984/1943.

(3) S. I. 1984/2036.

(4) OJ No. L204, 11.8.2000, p. 1.

(5) OJ No. L 163, 30.4.2004, p. 65.

(6) OJ No. L 107, 28.4.2005, p. 18.

RHAN 2

Hysbysiad o ddaliadau

3.-(1) Rhaid i feddiannydd daliad sy'n dechrau cadw gwartheg ar y daliad hwnnw, ac unrhyw berson sy'n cymryd y feddiannaeth drosodd o ddaliad lle y cedwir gwartheg, hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn un mis-

- (a) o'i enw a'i gyfeiriad; a
- (b) cyfeiriad y daliad.

(2) Pan fydd yn derbyn hysbysiad o dan baragraff (1) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddyroddi nod buches ar gyfer pob daliad.

(3) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o unrhyw newid i'r wybodaeth ym mharagraff (1) o fewn un mis.

RHAN 3

Adnabod a chofrestru gwartheg

Tagiau clust

4. Mae Atodlen 1 (tagiau clust) yn effeithiol.

Cofrestru gwartheg

5. Mae Atodlen 2 (cofrestru gwartheg) yn effeithiol.

Pasbortau gwartheg

6. Mae Atodlen 3 (pasbortau gwartheg) yn effeithiol.

Hysbysiad o symudiadau a marwolaeth

7. Mae Atodlen 4 (hysbysiad o symud neu farwolaeth) yn effeithiol.

Cofnodion

8. Mae Atodlen 5 (cofnodion) yn effeithiol.

RHAN 4

CYFFREDINOL

Codi tâl am wybodaeth

9. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol godi tâl rhesymol am ddarparu gwybodaeth a gaiff ei storio yn y gronfa ddata sy'n ofynnol gan Erthygl 5 o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 ac a ddarperir yn unol ag ail baragraff Erthygl 3 o'r Rheoliad hwnnw.

PART 2

Notification of holdings

3.-(1) An occupier of a holding who begins to keep cattle on that holding, and any person who takes over the occupation of a holding where cattle are kept, must notify the National Assembly within one month of-

- (a) his or her name and address; and
- (b) the address of the holding.

(2) When it receives notification under paragraph (1) the National Assembly must issue a herdmark for each holding.

(3) The occupier must notify the National Assembly of any change to the information in paragraph (1) within one month.

PART 3

Identification and registration of cattle

Ear tags

4. Schedule 1 (ear tags) has effect.

Registration of cattle

5. Schedule 2 (registration of cattle) has effect.

Cattle passports

6. Schedule 3 (cattle passports) has effect.

Notification of movements and death

7. Schedule 4 (notification of movement or death) has effect.

Records

8. Schedule 5 (records) has effect.

PART 4

GENERAL

Charging for information

9. The National Assembly may make a reasonable charge for providing information that is stored in the database required by Article 5 of Regulation (EC) No. 1760/2000 and provided in accordance with the second paragraph of Article 3 of that Regulation.

Pwerau arolygwyr

10.-(1) Caiff arolygydd, wrth iddo ddangos dogfen a ddilyswyd yn briodol sy'n dangos ei awdurdod, os gofynnir amdani, ar bob adeg resymol fynd ar dir neu i fangre er mwyn canfod a aethpwyd yn groes i'r canlynol -

- (a) y Rheoliadau hyn;
- (b) Teitl I o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000;
- (c) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 494/98 (sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97 o ran cymhwyso y lefel isat o sancsiynau yn fframwaith y system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol(1));
- (ch) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 509/1999 (ynghylch estyn y cyfnod hiraf a osodwyd ar gyfer rhoi tagiau clust ar fison(2))
- (d) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 911/2004; ac
- (dd) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 644/2005,

ac yn y rheoliad hwn mae "mangre" yn cynnwys unrhyw le, gosodiad, cerbyd, llong, llestr, cwch, bad, hofranlong neu awyren.

(2) Dim ond os caiff y pwr ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r darpariaethau ym mharagraff (1) y mae pwr i fynd i fangre yn cynnwys y pwr i fynd i fangre ddomestig.

(3) Caiff arolygydd gyflawni gwiriadau ac archwiliadau sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi'r darpariaethau ym mharagraff (1), a chaiff yn benodol-

- (a) casglu, corlannu ac arolygu unrhyw wartheg, a chaiff ofyn i'r ceidwad drefnu casglu, corlannu a dal gafaél ar wartheg;
- (b) cymryd samplau;
- (c) archwilio unrhyw gofnodion ar ba ffurf bynnag y bônt a chymryd copïau o'r cofnodion hynny;
- (ch) symud a chadw unrhyw gofnodion neu ddogfennau (gan gynnwys pasbortau) sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn;
- (d) cael mynediad at unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau cysylltiedig sy'n cael neu sydd wedi cael eu defnyddio mewn cysylltiad â chofnodion, a'u harchwilio a gwirio eu gweithrediad a gall ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'u gweithredu, roi i'r arolygydd unrhyw gymorth y bydd yn rhesymol i'r arolygydd ofyn amdano;

Powers of inspectors

10.-(1) An inspector may, on producing a duly authenticated document showing his or her authority, if required, at all reasonable hours enter any land or premises for the purposes of ascertaining whether there is or has been any contravention of -

- (a) these Regulations;
- (b) Title I of Regulation (EC) No. 1760/2000;
- (c) Commission Regulation (EC) No. 494/98 (laying down detailed rules for the implementation of Council Regulation (EC) No. 820/97 as regards the application of minimum administrative sanctions in the framework of the system for the identification and registration of bovine animals(1));
- (d) Commission Regulation (EC) No. 509/1999 (concerning an extension of the maximum period laid down for the application of ear tags to bison(2))
- (e) Commission Regulation (EC) No. 911/2004; and
- (f) Commission Regulation (EC) No. 644/2005,

and in this regulation "premises" includes any place, installation, vehicle, ship, vessel, boat, craft, hovercraft or aircraft.

(2) The power to enter premises only includes a power to enter domestic premises if they are being used in connection with the provisions in paragraph (1).

(3) An inspector may carry out all checks and examinations necessary for the enforcement of the provisions in paragraph (1), and in particular may-

- (a) collect, pen and inspect any cattle, and may require the keeper to arrange for the collection, penning and securing of cattle;
- (b) take samples;
- (c) examine any records in whatever form, and take copies of those records;
- (d) remove and retain any records or documents (including passports) relating to these Regulations;
- (e) have access to, and inspect and check the operation of, any computer and any associated apparatus or material that is or has been used in connection with records, and may require any person having charge of, or otherwise concerned with the operation of, the computer, apparatus or material to afford him or her such assistance as he or she may reasonably require;

(1) OJ Rhif L60, 28.2.1998, t. 78.

(2) OJ Rhif L60, 9.3.1999, t. 53,

(1) OJ No. L60, 28.2.1998, p. 78.

(2) OJ No. L60, 9.3.1999, p. 53,

- (dd) os cedwir cofnodion drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff ei gwneud yn ofynnol bod y cofnodion yn cael eu cynhyrchu ar ffurf sy'n caniatáu mynd â hwy oddi yno;
- (e) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw dagiau clust nas defnyddiwyd, a chofnod o'u rhifau gael eu dangos; ac
- (f) mynd â chynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd neu unrhyw berson arall y mae o'r farn bod ei angen gydag ef.

Pwerau i gyfyngu ar symudiadau

11. Yn unol ag ail baragraff Erthygl 22(1) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000, caiff swyddog o'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno i geidwad anifeiliaid ar ddaliad hysbysiad yn cyfyngu symudiadau gwartheg i'r daliad ac ohono os yw wedi'i fodloni bod angen hyn er mwyn gorfodi'r Rheoliad hwnnw, y Rheoliadau hyn, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 494/98, Rhif 509/1999, Rhif 911/2004 a Rhif 644/2005, a bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw'n euog o dramgwydd.

Cigydda anifeiliaid heb eu marcio

12. Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod milfeddygol a'r awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 1(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 494/98.

Rhwystro etc

13.-(1) Mae person sydd-

- (a) yn rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith;
- (b) heb achos rhesymol, yn methu â rhoi i unrhyw berson sydd yn gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith, unrhyw gymorth neu wybodaeth y mae'r person hwnnw yn rhesymol yn gofyn amdano neu amdani er mwyn i'r person hwnnw gyflawni ei swyddogaethau;
- (c) yn rhoi i unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith unrhyw wybodaeth y mae'r person hwnnw sy'n rhoi'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol; neu
- (ch) yn methu â dangos pasbort, dogfen neu gofnod, pan ofynnir iddo wneud hynny, i unrhyw berson sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn;

yn euog o dramgwydd.

(2) Mae unrhyw berson sy'n rhoi gwybodaeth anwir yn unrhyw hysbysiad a wneir o dan y Rheoliadau hyn yn euog o dramgwydd.

- (f) where records are kept by means of a computer, require the records to be produced in a form in which they may be taken away;
- (g) require production of any unused ear tags and record their numbers; and
- (h) take with him or her a representative of the European Commission or any other person he or she considers necessary.

Powers to restrict movements

11. In accordance with the second paragraph of Article 22(1) of Regulation (EC) No. 1760/2000, an officer of the National Assembly may serve a notice on a keeper of animals on a holding restricting the movement of cattle to or from the holding if he or she is satisfied that this is necessary for the proper enforcement of that Regulation, these Regulations, Commission Regulation (EC) No. 494/98, No. 509/1999, No. 911/2004 and No. 644/2005, and any person who fails to comply with that notice is guilty of an offence.

Slaughter of unmarked animals

12. The National Assembly is the veterinary authority and the competent authority for the purposes of Article 1(2) of Commission Regulation (EC) No. 494/98.

Obstruction etc.

13.-(1) A person who-

- (a) obstructs any person acting in the execution of these Regulations;
- (b) without reasonable cause, fails to give to any person acting in the execution of these Regulations any assistance or information that that person may reasonably require of him or her for the purposes of his or her functions;
- (c) furnishes to any person acting in the execution of these Regulations any information that he or she knows to be false or misleading; or
- (d) fails to produce a passport, document or record when required to do so to any person acting under these Regulations,

is guilty of an offence.

(2) Any person who provides false information in any notification made under these Regulations is guilty of an offence.

Tramgwyddau gan gyrrff corfforaethol

14.-(1) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y tramgwydd wedi'i wneud drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran-

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r corff corfforaethol; neu
- (b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath,

bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o dramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "cyfarwyddwr" mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei fusnes yn cael ei reoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

Cosbau

15. Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn atebol-

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu garchariad am gyfnod nad yw'n hirach na thri mis, neu'r ddau;
- (b) ar gollfarn ar ddiad, i ddirwy neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

Gorfodi

16.-(1) Caiff y Rheoliadau hyn eu gorfodi gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo y bydd mewn unrhyw achos penodol neu ddoarbarth o achosion yn eu gorfodi hwy ei hunan.

Dirymiadau

17. Mae'r canlynol wedi'u dirymu i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru -

- (a) Gorchymyn Anifeiliaid Buchol (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995(1);
- (b) Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998(2);
- (c) Rheoliadau Cronfa Ddata Gwartheg 1998(3);
- (ch) Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Diwygio) 1998(4);

-
- (1) O. S. 1995/12.
 - (2) O. S. 1998/871.
 - (3) O. S. 1998/1796.
 - (4) O. S. 1998/2969.

Offences by bodies corporate

14.-(1) Where a body corporate is guilty of an offence under these Regulations, and that offence is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to have been attributable to any neglect on the part of-

- (a) any director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate; or
- (b) any person who was purporting to act in any such capacity,

he or she, as well as the body corporate, is guilty of the offence and be liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) In this regulation "director" in relation to a body corporate whose affairs are managed by its members, means a member of the body corporate.

Penalties

15. A person guilty of an offence under these Regulations is liable-

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding the statutory maximum or to imprisonment not exceeding three months or to both;
- (b) on conviction on indictment, to a fine or to imprisonment for a term not exceeding two years or to both.

Enforcement

16.-(1) These Regulations are enforced by the local authority.

(2) The National Assembly may direct in any particular case or class of case that it will enforce them instead.

Revocations

17. The following are revoked insofar as they apply in relation to Wales-

- (a) the Bovine Animals (Records, Identification and Movement) Order 1995(1);
- (b) the Cattle Identification Regulations 1998(2);
- (c) the Cattle Database Regulations 1998(3);
- (d) the Cattle Identification (Amendment) Regulations 1998(4);

-
- (1) S. I. 1995/12.
 - (2) S. I. 1998/871.
 - (3) S. I. 1998/1796.
 - (4) S. I. 1998/2969.

- (d) Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Diwygio) 1999(1);
- (dd) Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hyn) (Cymru) 2000(2);
- (e) Rheoliadau Cronfa Ddata Gwartheg (Diwygio) (Cymru) 2002(3);
- (f) Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hyn) (Cymru) (Diwygio) 2002(4);
- (ff) Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Diwygio) 2006(5); a
- (g) Rheoliadau Cronfa Ddata Gwartheg (Diwygio) 2006(6).

- (e) the Cattle Identification (Amendment) Regulations 1999(1);
- (f) the Cattle (Identification of Older Animals) (Wales) Regulations 2000(2);
- (g) the Cattle Database (Amendment) (Wales) Regulations 2002(3);
- (h) the Cattle (Identification of Older Animals) (Wales) (Amendment) Regulations 2002(4);
- (i) the Cattle Identification (Amendment) Regulations 2006(5); and
- (j) the Cattle Database (Amendment) Regulations 2006(6).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(7)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(7)

13 Mawrth 2007

13 March 2007

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) O. S. 1999/1339.
 (2) O. S. 2000/3339 (Cy.217).
 (3) O.S. 2002/304 (Cy. 35).
 (4) O. S. 2002/273 (Cy.29).
 (5) O. O. 2006/1538.
 (6) O. S. 2006/1539.
 (7) 1998 p.38.

(1) S. I. 1999/1339.
 (2) S. I. 2000/3339 (W.217).
 (3) S. I. 2002/304 (W.35).
 (4) S. I. 2002/273 (W.29).
 (5) S. I. 2006/1538.
 (6) S. I. 2006/1539.
 (7) 1998 c.38.

Rheoliad 4

Regulation 4

Tagiau clust

Ear tags

Gorfodi Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000**Enforcement of Article 4 of Regulation (EC) No. 1760/2000**

1.-(1) O ran y Cynulliad Cenedlaethol-

- (a) ef yw'r awdurdod cymwys at ddibenion cymeradwyo tagiau clust at ddibenion Erthygl 4(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1760/2000; a
- (b) pan gaiff gais gan weithgynhyrhydd tagiau clust a gymeradwywyd, rhaid iddo ddyroddi codau adnabod unigryw at ddibenion yr Erthygl honno, gan gydymffurfio â darpariaethau paragraff 1 a 2 o Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 911/2004 (ac eithrio y caiff wrthod dyrannu rhifau o dan yr amgylchiadau a nodir yn erthygl 1(5) o'r Rheoliad hwnnw).

(2) Y person sy'n gyfrifol am beri bod modd adnabod gwartheg drwy osod tag clust ym mhob clust yn unol ag Erthygl 4(1) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 yw'r ceidwad.

(3) Yn unol ag Erthygl 4(2) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000-

- (a) yn achos buches odro, rhaid i'r ceidwad osod un tag clust ar y llo o fewn 36 o oriau ar ôl ei eni a'r ail dag o fewn 20 o ddiwrnodau ar ôl ei eni;
- (b) yn achos unrhyw fuches arall (heblaw bison) rhaid i'r ceidwad osod y ddau dag o fewn 20 o ddiwrnodau ar ôl geni'r llo;
- (c) yn achos bison, yn unol ag Erthyglau 1 a 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 509/1999, rhaid i'r ceidwad osod y ddau dag pan gaiff y lloi eu gwahanu oddi wrth eu mamau neu o fewn naw mis ar ôl eu geni, p'un bynnag yw'r cyntaf.

(4) Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad yn Erthygl 4(1) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 i osod tag clust o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (3) uchod yn euog o dramgwydd.

Ffurf y tagiau clust

2.-(1) Rhaid bod tagiau clust a osodir o dan Erthygl 4(1) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 wedi'u cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Yn unol â pharagraffau 1 a 2 o Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 911/2004, rhaid bod gan y ddau dag clust y logo a bennir ym mharagraff 11 (yn achos tag clust deuddarn, rhaid bod y logo ar y ddau ddarn), y llythrennau "UK" a'r rhif unigryw a

1.-(1) The National Assembly-

- (a) is the competent authority for the purposes of approving ear tags for the purposes of Article 4(1) of Regulation (EC) No. 1760/2000; and
- (b) on application from a manufacturer of approved ear tags, must issue unique identification codes for the purposes of that Article, conforming with the provisions of paragraphs 1 and 2 of Article 1 of Commission Regulation (EC) No. 911/2004 (except that he may refuse to allocate numbers in the circumstances set out in Article 1(5) of that Regulation).

(2) The person responsible for identifying cattle by means of an ear tag applied to each ear in accordance with Article 4(1) of Regulation (EC) No. 1760/2000 is the keeper.

(3) In accordance with Article 4(2) of Regulation (EC) No. 1760/2000-

- (a) in the case of a dairy herd, the keeper must apply one ear tag to the calf within 36 hours of birth and the second tag within 20 days of birth;
- (b) in the case of any other herd (other than bison) the keeper must apply both tags within 20 days of birth;
- (c) in the case of bison, in accordance with Articles 1 and 2 of Commission Regulation (EC) No. 509/1999, the keeper must apply both tags when the calves are separated from their dams or within nine months of the birth, whichever is the sooner.

(4) Any person who fails to comply with the requirement in Article 4(1) of Regulation (EC) No. 1760/2000 to apply an ear tag within the period specified in paragraph (3) above is guilty of an offence.

Form of ear tags

2.-(1) Ear tags applied under Article 4(1) of Regulation (EC) No. 1760/2000 must be approved by the National Assembly.

(2) In accordance with paragraphs 1 and 2 of Article 1 of Commission Regulation (EC) No. 911/2004, both ear tags must have the logo specified in paragraph 11 (in the case of a two-piece ear tag, both pieces must have it), the letters "UK" and the unique number

ddyrennir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Yn unol ag Erthygl 1(3) o'r Rheoliad hwnnw gall tag clust hefyd gael cod bar.

(4) Caniateir i'r pŵer yn erthygl 4 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 911/2004 (pŵer i ddewis deunydd neu fodel gwahanol ar gyfer yr ail dag clust) cael ei arfer gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Symudiad o ddaliad

3.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), bydd unrhyw berson sy'n symud anifail o ddaliad gan dorri trydydd paragraff Erthygl 4(2) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 yn euog o dramgwydd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae unrhyw berson sy'n symud o ddaliad wartheg y dylid bod wedi'u tagio neu'u marcio o dan ddeddfwriaeth tagio gwartheg flaenorol na chafodd eu tagio neu'u marcio'n gywir yn euog o dramgwydd.

(3) Os bydd anifail mewn marchnad heb gael ei dagio neu'i farcio'n gywir, caiff arolygydd ddyroddi trwydded i'r ceidwad yn caniatáu i'r anifail gael ei symud o'r farchnad i ddaliad a bennir yn y drwydded.

(4) Bydd unrhyw berson a fydd yn symud anifail gan dorri'r drwydded neu dorri unrhyw amod o'r drwydded yn euog o dramgwydd.

Tagiau clust o'r newydd

4.-(1) Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 4(5) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1760/2000, a bydd unrhyw berson sydd naill ai'n tynnu neu'n ailosod tag clust (neu dag clust a roed ynghlwm o dan ddeddfwriaeth tagio gwartheg flaenorol) heb ganiatâd yn groes i'r Erthygl honno neu Erthygl 4(4) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 yn euog o dramgwydd.

(2) Os bydd ceidwad anifail a anwyd ym Mhrydain Fawr ar neu ar ôl 1 Ionawr 1998 yn darganfod bod tag clust yn annarllenadwy neu wedi cael ei golli, rhaid iddo, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y darganfyddiad, ei ailosod gan dag clust arall sy'n dwyn yr un rhif (rhaid iddo fod yn brif dag os oedd y gwreiddiol yn brif dag, neu'n brif dag neu'n ail dag oes oedd y tag gwreiddiol yn ail dag) ac mae methu â gwneud hynny'n dramgwydd.

(3) Os bydd ceidwad anifail a anwyd ym Mhrydain Fawr cyn 1 Ionawr 1998 yn darganfod bod tag clust yn annarllenadwy neu wedi cael ei golli, rhaid iddo, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y darganfyddiad, naill ai ei aildagio gan dag clust sengl arall, neu ei aildagio â thagiau dwbl yn unol â'r Rheoliadau hyn, ac mae unrhyw berson sy'n methu â gwneud hynny'n euog o dramgwydd.

allocated by the National Assembly.

(3) In accordance with Article 1(3) of that Regulation an ear tag may also have a bar code.

(4) The power in Article 4 of Commission Regulation (EC) No. 911/2004 (a power to choose other material or model for the second ear tag) may be exercised by the National Assembly.

Movement from a holding

3.-(1) Subject to paragraph (3), any person who moves an animal from a holding in breach of the third paragraph of Article 4(2) of Regulation (EC) No. 1760/2000 is guilty of an offence.

(2) Subject to paragraph (3), any person who moves from a holding cattle that should have been tagged or marked under previous cattle tagging legislation and that are not correctly tagged or marked is guilty of an offence.

